***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1462 (Cy. 143)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mehefin 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mehefin 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 32B a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 2 Medi 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod esgobaethol priodol" yr un ystyr ag "appropriate diocesan authority" yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "corff crefyddol priodol" ("*appropriate religious body*") yw—

(a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, neu ysgol arfaethedig o'r fath, yr awdurdod esgobaethol priodol, a

(b) yn achos ysgolion eraill neu ysgolion arfaethedig eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd neu'r enwad crefyddol a nodir, neu y bwriedir iddo gael ei nodi, mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(**1**) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32B gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5). Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Deithwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 210 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Ymgynghori**

**3.**—(1) Rhaid i gyfnod a dull ymgynghori Gweinidogion Cymru fod yn unol â'r tabl yn yr Atodlen.

(2) Yn achos amheuaeth o ran y dyddiad y cafodd Gweinidogion Cymru hysbysiad am y digwyddiad neu'r amgylchiadau a arweiniodd at y cyfarwyddyd tybir mai'r dyddiad yw'r dyddiad hwnnw y penderfynir yn rhesymol arno gan Weinidogion Cymru.

(3) Pan fo rhes 5 o'r tabl yn yr Atodlen yn gymwys caiff Gweinidogion Cymru benderfynu na fydd ymgynghoriad o'r fath yn cael ei gynnal.

**Personau i ymgynghori â hwy**

**4.**—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y cyfarwyddyd mewn drafft â'r canlynol—

(a) pob awdurdod lleol yng Nghymru;

(b) cyrff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir a phob ysgol sefydledig yng Nghymru;

(c) cyrff llywodraethu 10% o bob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol feithrin a gynhelir;

(d) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;

(e) Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru;

(f) y corff crefyddol priodol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ag iddi gymeriad crefyddol;

(g) Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig;

(h) Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(i) Comisiynydd Plant Cymru; a

(j) pob corff sy'n cynrychioli buddiannau aelodau o staff ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnal ymgynghoriad yn unol â rhes 5 o'r tabl yn yr Atodlen rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

4 Mehefin 2014

## YR ATODLEN

Rheoliad 3

Cyfnod a dull ymgynghori

| *Y cyfnod hysbysu a gaiff Gweinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau yr effeithir arnynt gan y digwyddiadau neu'r amgylchiadau sy'n arwain at y cyfarwyddyd* | *Y cyfnod ymgynghori ar y cyfarwyddyd* | *Y dull ymgynghori ar y cyfarwyddyd* |
|---|---|---|
| 1 flwyddyn neu'n fwy | O leiaf 12 wythnos | Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a thrwy unrhyw ffyrdd eraill, os oes rhai, y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol |
| 1 flwyddyn neu'n llai ond yn fwy na 6 mis | O leiaf 6 wythnos | Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru |
| 6 mis neu'n llai ond yn fwy na 3 mis | O leiaf 3 wythnos | Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru |
| 3 mis neu'n llai ond yn fwy na 4 wythnos | O leiaf 1 wythnos | Drwy gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru |
| 4 wythnos neu'n llai | Unrhyw gyfnod ymgynghori, os oes un, y mae Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn ei ystyried yn briodol | Unrhyw ddull ymgynghori, os oes un, y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mewnosodwyd adrannau 32A i 32C i Ddeddf Addysg 2002 gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ac mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â phennu dyddiadau tymhorau ysgol a sesiynau ysgol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae adran 32B yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig i benderfynu ar y dyddiadau tymhorau ysgol hynny a bennir yn y cyfarwyddyd.

Cyn gwneud unrhyw gyfarwyddyd o'r fath mae adran 32B(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad sy'n briodol yn eu barn hwy. Mae adran 32AB(4) yn darparu ymhellach y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch yr ymgynghoriad hwnnw y maent yn ei hystyried yn briodol.

Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn nodi cyfnod a dull yr ymgynghoriad gan gynnwys pa bryd nad oes angen ymgynghoriad o bosibl (rheoliad 3 a'r Atodlen) ac â phwy y mae rhaid ymgynghori (rheoliad 4).